Hannah.

Mae'r gwynt yn hallt heno
Ac mae'r mor yn corddi'n wyllt
Mae'r tir yn dechre ildio
Oes gobaith imi guddio yn y gwyll
O Hannah, o Hannah fach.

Mae'r duwch yma'n llethol
A'r storm yn crynu'r mur
Ma'r gwynt yn rhuo'n erchyll
Ac mae milwyr yn ein tir
O Hannah, o Hannah fach.

O huna'n dawel heno
Breuddwydia am y dydd
Pan welwn wanwyn newydd
Yr amser pan y byddwn ni yn rhydd
O Hannah, o Hannah fach.

h. Geraint Griffiths 1998.